# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 7fed o Ragfyr 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Chwilog a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** Y Cynghorwyr Aled Lloyd Evans (Cadeirydd), Euros Jones, Anwen Jones, Tegid Jones, Dylan Thomas a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Cynghorwyr Sian Angharad Parry, Aled Davies, Rhys Tudur, Darren Morley, Angela Williams, Margaret Griffith, Delyth Parry, Miriam Williams, Gareth O. Davies, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 2ail o Dachwedd 2023.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Tachwedd 2023 (Cadeirydd yn ei llofnodi yn y cyfarfod).

4. **Datgan buddiant personol - neb.**

5. **Adroddiad Blynyddol – 01.04.2022 – 31.03.2023** – bydd yn barod erbyn y cyfarfod nesaf.

6. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

7. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

**a)** **Cais Cynllunio rhif:: C23/0881/41/DT - Llety Plu, Llangybi -** Cadw estyniad cwrtil annedd ac adeiladu sied gardd ar gyfer storio cyffredinol. **Dim gwrthwynebiad.**

b) **Cais Cynllunio rhif: C23/0938/41/LL - Capel Rhoslan, Rhoslan -** Gosodiad diwygiedig ar gyfer adeiladu annedd newydd, yn cynnwys parcio a gwaith trin carthion. **Cefnogi**.

c) **Cais Cynllunio rhif: C23/0681/41/HT - Hafan Y Môr, Chwilog -** Codi monopol telegyfathrebu ac offer cysylltiol. **Cefnogi.**

8. **Gwarchod y Gymraeg yn ein ysgolion – cais am gefnogaeth**
Derbyniwyd cais gan y Cynghorwyr Iwan Edgar, Richard Glyn Roberts a Rhys Tudur, yn datgan fod lleihad yng nghanran y plant sydd yn astudio pynciau drwy'r Gymraeg yng Ngwynedd, a bod nifer cynyddol yn astudio drwy'r Saesneg. Gofynnwyd i aelodau o'r Cyngor Cymuned gefnogi'r alwad, ac i anfon y llythyr isod ymlaen at Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd:-

"Ysgrifennwn atoch fel Cynghorau Cymuned Llŷn ac Eifionydd i bwyso arnoch i ail-lunio Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd.
Rydym yn anfodlon â chategori cyfredol ein hysgolion a'r polisi iaith cyfredol y mae'r Sir wedi ei lunio ar gyfer ein hysgolion. Mae'r polisi wedi dyddio'n arw yn sgil y drefn gategoreiddio newydd ac nid yw'r polisi na chategori yr ysgolion yn rhoi cynhaliaeth ddigonol i'r Gymraeg. Nid yw categori'r ysgol na'r polisi yn gofalu bod plant yn gwneud canran helaeth o'u haddysg trwy'r Gymraeg ac mae'n rhwyddhau'r ffordd i blant ddewis gwneud eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg. Mewn theori, ar wahan i'r Gymraeg

fel pwnc, gall 40% o blant y Sir osgoi addysg cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer ardal fel Llŷn ac Eifionydd, mae'r sefyllfa hon yn gwbwl annerbyniol ac yn fygythiad i barhad y gwareiddiad Cymraeg.

Mae polisi iaith cadarn ar gyfer ein hysgolion yn allweddol i ddiogelu dyfodol ein hiaith. Ni ddylai'r polisi beryglu ei dyfodol. Pwyswn arnoch i ddynodi ein hysgolion yn rhai Cymraeg penodedig ac ail-lunio'r polisi iaith, gan ddiolch ichi ymlaen llaw am eich ymdrechion yn gweithredu ar fater mor dyngedfenol bwysig". **Cefnogi, gan ofyn i'r Clerc anfon y llythyr ymlaen.**

9. **Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol gan Cyngor Gwynedd**
Cais gan Cynghorydd Rhys Tudur i'r Cyngor Cymuned anfon yr ymateb ffurfiol a wnaed gan y Cynghorydd Aled Evans, i'r ymgynghoriad uchod cyn 06.12.2023. Cytunwyd i wneud hynny drwy rannu ebyst, ac fe wnaeth y Clerc ei anfon cyn y dyddiad yma.

**Materion yn y gymuned**.

10. **Llanystumdwy**
Problem parcio yn Llanystumdwy - derbyniwyd cwyn yn dweud nad oes modd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn/'pram' basio Swn-yr-Afon, sef y tŷ ar y gongl ar waelod stryd Maen y Wern.

- Mae mwy nag un car yn yno, ac weithiau maent yn parcio ar y palmant ei hun, hanner ar y lôn, hanner ar y palmant a dro arall yn parcio ar y tir preifat, ond yn blocio'r pafin. Angen ystryied pasio'r mater at Cyngor Gwynedd. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

11. **Rhoslan/Ynys**
**Pont Rhydybenllyg** -llechen enw'r bont -derbyniwyd gwybodaeth fod cerbyd arall wedi taro'r bont eto. Y Clerc wedi gwneud ymholiadau, ac wedi derbyn cadarnhad gan yr Adran Priffyrdd, fod yr arwydd llechen yn saff yn swyddfa Afonwen a phan fyddant yn trwsio'r bont, byddant yn ail osod y llechen yn ei hol. **Derbyn**.

12. **Chwilog**
**Llanarmon**
**Groesffordd Llanarmon ger yr Eglwys wrth ddod o gyfeiriad Llangybi** – derbyniwyd ebost gan aelod o'r cyhoedd yn dweud ei bod yn anodd gweld a oes car yn dod o gyfeiriad Chwilog (am Llanarmon). Eisiau gofyn am gael arwydd hefo drych arno, fel ag yr oedd yno beth amser yn nol. **Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd**.

13. **Pencaenewydd/Sardis**
a) Sawl coeden wedi marw ac mewn perygl o syrthio ar draws y lon rhwng Pencaenewydd a Drofa. Mae un goeden wedi syrthio mewn storm ychydig fisoedd yn nol, a bu'n rhaid cau y ffordd er diogelwch.
b) Coeden yn pwyso ar linnell ffon ger Tanllyn.
c) Coed helyg yn tyfu'n wyllt rhwng y lon fawr a llyn 'wakestock' yn Glasfryn, ac yn ymestyn i'r lon. Derbyniwyd gwybodaeth gan Mr Glyn Evans, Uwch Beiriannydd Asedau Dwr, Cyngor Gwynedd yn dweud fod:-
"Rhybudd Coed (Adran 154 or Ddeddf Priffyrdd) wedi cael i gyflwyno ar y perchennog tir; ac mae trafodaethau yn mynd ymlaen i ddatrys y mater.
Os na fydd y perchennog y gweithredu oddi fewn yr wythnosau nesaf, bydd rhybudd terfynol yn cael ei gyflwyno ac fe fydd yr Adran yn ymgymryd y gwaith ac adennill costau oddi ar y tir feddiannwr".
**Derbyn**.

14. **Llangybi**

a) **Cae Chwarae** – disgwyl pris i beintio'r offer fel nad ydynt yn rhydu.
b) Y Clerc wedi derbyn ymateb gan Nia Hughes, Swyddog Ariannu Cronfa Gymunedol y Loteri, ac mae wedi anfon ffurflen i wneud cais am yr arian. Gofynwyd i'r Clerc gael pris arall am ail osod llawr newydd yno.

15. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.11.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Fe wnaeth hefyd anfon rhagolwg o'r sefyllfa/cyllideb am y cyfnod 01.04.2024 – 31.03.2025.

16. **Gohebiaeth gan Is-Adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol** ynglŷn â swm priodol gwariant o dan Adran 137(4) (a) **o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer cynghorau Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yw £10.81.**
Mae adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn caniatâu i bob Cyngor Cymuned neu Dref ysgwyddo gwariant at ddibenion nad oes ganddo ddim pwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er budd yr ardal neu unrhyw ran ohoni, neu'r cyfan neu rai o'i thrigolion, ac y bydd yn dod â budd uniongyrchol i'r rhain, ar yr amod bod y budd yn gymesur â'r gwariant a ysgwyddir. O dan adran 137(3), caniateir hefyd i Gynghorau Cymuned a Thref ysgwyddo gwariant at ddibenion elusennol ac eraill a bennir. Uchafswm y gwariant y gellir ei ysgwyddo o dan adran 137(1) a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, yn y ddau achos, fydd £10.81 fesul etholwr.
Ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25, cyfrifir y swm priodol at ddibenion adran 137(4)(a) drwy gymhwyso'r fformiwla a nodir yn Atodlen 12B i Ddeddf 1972. Cynyddodd y Mynegai Prisiau Manwerthu 8.86% rhwng mis Medi 2022 a mis Medi 2023. Mae hyn yn golygu, drwy gymhwyso'r fformiwla, fod y swm priodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yn cynyddu o £9.93 i £10.81 fesul etholwr. **Derbyn**.

17. **Cegin Gymunedol** - Mae Chwilog yn y broses o gynnal 5 sesiwn ar y dydd Gwener ola bob mis rhwng 10 a 12.30, gan gynnig gofod cynnes a phryd o fwyd syml am ddim.
Mae Pencaenewydd hefyd yn cynnal yr un cyntaf 05.12.2023.
Y Clerc wedi holi Un Llais Cymru ac fe dywedwyd fod angen cofnodi y broses yn llawn, a bod y taliadau yn cael ei gwneud i gymdeithasau hysbys sydd hefo cyfrif banc a chyfansoddiad.
**Penderfynwyd adolygu hyn mis Ionawr 2024, drwy holi faint fuodd yn mynychu y sesiynau, a faint oedd y gost o ddarparu hyn.**

18. **Elusen William Ellis** – fe roddwyd hysbyseb yn Y Ffynnon ac ar yr hysbysfwrdd yn Llanystumdwy fis Tachwedd, hefo dyddiad cau i dderbyn ceisiadau erbyn 28.11.2023. Roedd y cais a dderbyniwyd i fod i gael ei drafod yn dilyn y prif gyfarfod, ond oherwydd nad oedd Cynghorwyr Llanystumdwy yn bresennol, bydd angen trefnu i'r Clerc drafod y mater eto hefo nhw eto o fewn yr wythnos, drwy ebost.

19. **Hysbyseb ceisiadau am Gymorth Ariannol** – gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor. Mae hysbyseb wedi cael ei roi ar y wefan, yn rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2023 o'r Ffynnon, ac ar yr hysbysfyrddau gyda dyddiad cau 15.01.2024.

20. **Graddfa cyflogau clercod yn codi'n genedlaethol yn nol i 01.04.2023** - derbyniwyd gwybodaeth gan Un Llais Cymru 06.11.2023, yn cadarnhau fod y Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NALC) wedi codi cyflog clercod yn nol i'r 01.04.2023.

Bydd graddfa cyflog pwynt rhif 12 y Clerc felly'n codi o fod yn £12.73 i fod yn £13.73 yr awr yn nol i'r 01.04.2023. Mae'r graddfa cyflog y Clerc rhwng rhif 7 – 12.
**Felly mae cyflog y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol o'r 01.04.2023 ymlaen yn £13.73 yr awr x 35 awr y mis = £480.55 (yn lle £445.55 y mis). Cytuno.**
***Fe wnaeth y Clerc ddangos y dogfennau perthnasol i'r Cadeirydd o flaen y cyfarfod.***

21. **Cyflog Clerc** – cynhaliwyd cyfarfod Pwyllgor Amodau Gwaith, rhwng y Cynghorwyr Sian Parry, Anwen Jones, Angela Williams, Gareth Davies, Darren Morley a'r Clerc yn Y Plu am 7:00 nos Fercher i drafod codi cyflog y Clerc. (Fe wnaeth y Clerc adael y cyfarfod am y rhan briodol iddynt drafod y mater).
Eglurwyd fod sawl cyngor yn yr ardal wedi bod yn hysbysebu i gael Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd yn ddiweddar, a bod y cyflog fesul awr yn sylweddol uwch.
Dangosodd y Clerc hysbysebion am swydd clerc mewn 3 cyngor arall yn yr ardal. Mae Clerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy wedi bod yn derbyn £12.73 yr awr ers 01.04.2023, am 35 awr y mis. Mae wedi gwneud ymholiadau hefo Un Llais Cymru, a derbyniwyd y wybodaeth isod ganddynt ar 01.10.2023 cyn i'r graddfa cyflog cenedlaethol godi:-

"Mae'r byd wedi newid yn sylweddol ers 2018:

1. Mae llwyth gwaith y Clerc wedi cynyddu'n sylweddol. Er enghraifft, mae'n rhaid i Glercod yn awr wneud adroddiadau blynyddol, cynlluniau hyfforddi ac archwiliadau dwys.
2. Mae COVID wedi rhoi hwb sylweddol i gyfraddau cyflog. Mae archfarchnadoedd bellach yn talu cyfradd sylfaenol o £12.50 am waith di-grefft. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau bellach yn talu lleiafswm o £15.67 yr awr i Glercod profiadol.

Buaswn i yn awgrymu eich bod yn gofyn i'ch Cyngor am adolygiad o'ch cyflog a'ch oriau gwaith er mwyn ystyried y newidiadau hyn".

Mae Un Llais Cymru hefyd wedi cadarnhau (ar ol derbyn cadarnhad gan y Rheolwr Pensiynau) nad oes angen i'r Cyngor Cymuned dalu pensiwn i'r Clerc, oherwydd fod ganddi gynllun pensiwn hefo'i phrif gyflogaeth arall, sef Cyngor Gwynedd, a bod ei chyflogaeth gyda'r Cyngor Cymuned yn talu llai na £192.00 yr wythnos.

**Cytunwyd i godi cyflog y Clerc i £16.67 o'r 01.01.2024 ymlaen (ar sail ffigyrau newydd cenedlaethol), sef ei bod ar gyflog pwynt – 23, sef o fewn graddfa LC2, 22 – 28,** ac i nodi hynny yn y swydd ddisgrifiad, **a cytunwyd i wneud hyn gan y prif gyfarfod ar 07.12.2023.** Cytunwyd fod angen i'r Clerc hefyd hawlio oriau ychwanegol os bydd angen gwneud gwaith ychwanegol, megis casglu gwybodaeth ar gyfer archwilio, neu unrhyw waith ychwanegol arall fel bo angen.
**Felly, bydd cyflog o £16.67 x 35 awr y mis = £583.45 x 12 mis = £7,001.40, yn lle £13.73 x 35 awr y mis = £480.55 x 12 mis = £5,766.60, (sef £1,234.80 yn fwy y flwyddyn). Derbyn.**

22. **Praesept** – wedi derbyn ebost gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn gofyn am benderfyniad y Cyngor Cymuned ar gyfer praesept 2024/25, **erbyn Dydd Gwener 26ain o Ionawr 2024**.
Cynhaliwyd Cyfarfod Cyllid/Busnes ar 05.10.2023. Mae'r Clerc wedi anfon y cofnodion at bawb, a'r ddogfen rhagolwg cyllideb am y flwyddyn 01.04.2024 – 31.03.2025 o flaen y cyfarfod diwethaf. Mae'r Clerc hefyd wedi diweddaru'r rhagolwg cyllid i ddangos mwy o newidiadau.

Cytunwyd i gynyddu'r praesept o £19,000.00 i £20,000.00 o 01.04.2024 ymlaen, oherwydd fod costau yn cynyddu.

23. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

| **Enw/Rheswm** | Rheswm | Pris<br>£ | TAW | Cyfanswm<br>Taliad net<br>£ | Taliad<br>BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|
| Neuadd Llanystumdwy | Llogi Neuadd 08.06.2023 /06.07.2023 a 07.09.2023 | **45.00** | | **45.00** | **45.00** |
| Gwaith garddio Rhys Jones | Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch. | **120.00** | | **120.00** | **120.00** |
| | *O dan bont y rheilffordd i draeth Afonwen.* | **100.00** | | **100.00** | **100.00** |
| | Ynysgain Bach at bont rheilffordd. | **120.00** | | **120.00** | **120.00** |
| | *Lon fawr at Tý Newydd.* | **120.00** | | **120.00** | **120.00** |
| | Bontfechan-Tyn Morfa. | **380.00** | | **380.00** | **380.00** |
| | *Ceg llwybr hen ffordd Abercin.* | **30.00** | | **30.00** | **30.00** |
| | Safle Bedd Lloyd George yn ystod y tymor. | **120.00** | | **120.00** | **120.00** |
| | *Maenywern, Llanystumdwy* | **110.00** | | **110.00** | **110.00** |
| | Cae chwarae Llangybi | **650.00** | | **650.00** | **650.00** |
| | **Cyfanswm** | **1750.00** | | **1750.00** | **1750.00** |

24. Cyflog mis Tachwedd 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Tachwedd 2023<br>35 awr y mis x £13.73 = £480.55<br>(ac ol-daliad codiad cyflog cenedlaethol o £12.73 i £13.73 yr awr rhwng 01.04.23-30.10.23, sef £1.00 yn fwy yr awr x 35 awr y mis= £35.00 x 7 mis = £245.00 | 480.55<br>245.00<br>**725.55**<br>£145.20 -llai treth<br>**£580.35** | **580.35** | **580.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Tachwedd 2023 a'r ol-daliad | 726.00 x 20% = **£145.20** | **145.20** | **145.20** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau swyddfa'r Clerc Tachwedd 2023 | **£26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr - Dim**

Cytunwyd mai ar y nos Iau **04.01.2023** fydd y cyfarfod nesaf, yn Festri Pencaenewydd, ac yn rhithiol.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**